**MEMORANDWM O GYD-DDEALLTWRIAETH**
**COMISIYNYDD Y GYMRAEG,**
**A**
**CHOMISIWN Y CYNULLIAD**

---

## Rhaglith

Nod y Memorandwm hwn yw amlinellu'r cytundeb a wnaed rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn y Cynulliad at y pwrpas o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Nid yw'r Memorandwm hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y sefydliadau dan sylw na'r modd y caiff y swyddogaethau hyn eu harfer.

Nid yw'n awgrymu trosglwyddo unrhyw gyfrifoldeb o un i'r llall/lleill, nac yn awgrymu rhannu unrhyw gyfrifioldebau statudol.

Ni fwriedir i'r Memorandwm hwn fod yn gyfreithiol gyfrwymol. Fodd bynnag, mae Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn y Cynulliad yn cytuno i gadw at ei egwyddorion ac i roi sylw priodol i weithgareddau ei gilydd.

Mae'r cytundeb hwn yn parchu annibyniaeth y ddau barti a'r annibyniaeth sy'n bodoli yng nghyswllt Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.

## Comisiynydd y Gymraeg

Caiff nod a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg eu diffinio ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny mae'n rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac i ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.

Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol o fewn terfynau deddfwriaeth i gyflawni ei nod. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi nifer o swyddogaethau a phwerau i'r Comisiynydd. Y rhai amlycaf yw:

- cyhoeddi adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg
- ystyried ymchwilio os gwneir cwyn ynglŷn ag ymddygiad sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau a chynlluniau iaith Gymraeg
- rhoi hysbysiad cydymffurfio i unrhyw sefydliad sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw safon yn benodol gymwys i'r sefydliad
- cynnal ymchwiliad safonau er mwyn penderfynu a ddylai corff fod yn agored i

orfod cydymffurfio â safonau a pha safonau ddylai fod yn benodol gymwys i'r corff neu grŵp o gyrff
- cynnal ymholiad i unrhyw fater yn ymwneud â'i swyddogaethau
- cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol

## Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Caiff dyletswyddau statudol y Cynulliad eu hamlinellu yn Neddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer pob tymor y Cynulliad.

Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae hefyd yn nodi sut y bydd yn monitro'r Cynllun ac yn adrodd arno, sut y bydd yn ymdrin â chwynion mewn achosion o fethu â chyrraedd y safonau rhagorol sydd eu pennu.

## Diogelu data a rhyddid gwybodaeth

Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn y Cynulliad, yn eu gweithgareddau ar y cyd ac wrth gydweithredu â'i gilydd, yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â holl ofynion Deddfwriaeth Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Byddant hefyd yn ymgynghori â'i gilydd ynghylch unrhyw gais sy'n gysylltiedig â'r berthynas rhwng y ddau sefydliad.

## Dyletswyddau hawliau dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb

Bydd cyd-lofnodwyr y Memorandwm hwn yn sicrhau bod y trefniadau a nodir yn y Memorandwm yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Y berthynas ar waith

Mae cyd-lofnodwyr y Memorandwm hwn yn ymrwymo i weithio mewn modd egwyddorol, fel y nodir isod.

Nodweddir y berthynas waith gan gysylltiadau rheolaidd a pharhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yng Nghomisiwn y Cynulliad yn ôl y gofyn ond heb fod yn llai aml na phob chwe mis.

Gall Comisiynydd y Gymraeg ddirprwyo'r dasg hon i Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y cyfarfodydd hyn yn ystyried, ymysg pethau eraill, raglenni gwaith a'r cyfle i weithio.

Gall cydweithio olygu bod partïon y Memorandwm hwn yn gweithio gyda'i gilydd ar ymchwil neu brosiect ar y cyd.

Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol hefyd rhwng aelodau o staff partïon y Memorandwm yn ôl y gofyn ac ar faterion a nodwyd yn y fframwaith cydweithio sy'n atodiad i'r Memorandwm hwn (Atodiad 1).

Bydd y partïon yn gwneud pob ymdrech resymol i helpu'r llall gydag unrhyw gais i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, cyn belled â'i bod yn ymwneud â'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Bydd y ddau sefydliad yn sicrhau bod eu haelodau o staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm hwn ac o'r egwyddorion ar gyfer gweithio ar y cyd.
Cyfrifoldeb y Comisiynwyr fydd sicrhau bod pob sefydliad yn deall rolau ei gilydd a'r fframwaith y mae'n ofynnol iddynt weithredu ynddo.

**Adolygiad**

Adolygir y Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth hwn flwyddyn ar ôl cael ei lofnodi. Wedyn, caiff ei adolygu a'i ddiweddaru, os bydd angen hynny, yn flynyddol.

Llofnod: Aled Roberts

Dyddiad: 17eg Rhagfyr 2019.

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Llofnod: Manon Antoniazzi

Dyddiad: 17eg Rhagfyr 2019

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc
ar ran Comisiwn y Cynulliad

**ATODIAD 1**

**FFRAMWAITH CYDWEITHIO**

| | |
|---|---|
| **Cyngor a sylwadau** | Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn y Cynulliad yn trafod dulliau priodol o weithio ar y cyd er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Prif ffocws y trafodaethau hyn fydd gweithredu'n gyson â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, gan gynnwys hwyluso hawl personau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yng ngweithrediadau'r Cynulliad.<br><br>Gall Comisiynydd y Gymraeg ddarparu cyngor neu sylwadau i Gomisiwn y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â hybu a hwyluso'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys:<br><br>- rhannu dogfennau cyngor safonol<br>- ymateb i gais penodol gan Gomisiwn y Cynulliad<br>- ymateb i faterion y daw'r Comisiynydd yn ymwybodol ohonynt.<br><br>Bydd y Comisiwn yn ystyried cyngor a sylwadau y Comisiynydd, gan weithredu fel y bo'r Comisiwn yn ystyried yn briodol.<br><br>Gall y Comisiynydd ofyn am farn a phrofiadau Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â materion perthnasol, er enghraifft digonolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg. |
| **Arferion llwyddiannus ac arloesi** | Bydd y Comisiynydd a'r Comisiwn yn chwilio am gyfleoedd i ddwyn sylw sefydliadau eraill at arferion da'r Comisiwn o ran darparu gwasanaethau Cymraeg a hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn dulliau eraill. Gall hyn gynnwys astudiaethau achos, neu gyfeirio at waith y Comisiwn mewn adroddiadau a chanllawiau.<br><br>Bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd am ddatblygiadau i'w ddarpariaeth Gymraeg sy'n arloesol, yn hybu defnydd o'r Gymraeg, neu'n hwyluso gweithio'n fwy effeithlon.<br><br>Bydd y Comisiynydd yn hwyluso cyfleoedd i'r Comisiwn ddysgu am arferion da sefydliadau eraill, er enghraifft drwy rannu astudiaethau achos a chanllawiau arferion da, a gwahodd y Comisiwn i ddigwyddiadau fel gweithdai a seminarau. |

| | |
|---|---|
| **Gwirio darpariaeth** | Mae Comisiwn y Cynulliad o'r farn bod y Cynllun yn cymharu'n ffafriol â'r safonau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Ni fyddai Comisiwn y Cynulliad yn dymuno mynd islaw ysbryd y safonau hynny o gwbl.<br><br>Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys Comisiwn y Cynulliad yn ei waith arferol o gynnal gwiriadau annibynnol o rai o wasanaethau sefydliadau cyhoeddus – h.y. gwaith cwsmer cudd.<br><br>Bydd y Comisiynydd yn darparu'r canlyniadau meintiol i Gomisiwn y Cynulliad er mwyn galluogi'r Comisiwn i gymryd camau, os oes angen, i wella'i ddarpariaeth. Ni fydd y Comisiynydd yn adrodd yn allanol ar sail y dystiolaeth hon.<br><br>Caiff y Comisiwn ei gynnwys mewn arolygon thematig a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg pan fo'r pwnc yn gymwys. Golyga hyn anfon cais i'r Comisiwn gyfrannu tystiolaeth ysgrifenedig am bwnc penodol. |
| **Gweithredu Mesur y Gymraeg a Deddf yr Iaith Gymraeg** | Nid yw'r memorandwm hwn yn effeithio ar gyfrifoldebau a phwerau statudol y Comisiynydd.<br><br>**Cwynion am safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg**<br><br>Caiff cwynion y gallai Comisiynydd y Gymraeg eu derbyn gan Gomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â gweithrediad safonau gan berson perthnasol eu trin yn unol â Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd a rhan 5 Mesur y Gymraeg.<br><br>Yn yr un modd bydd cwynion am weithrediad cynlluniau iaith Gymraeg eu hystyried o dan ofynion adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg.<br><br>**Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>Bydd unrhyw gais y gallai Comisiynydd y Gymraeg ei dderbyn gan berson mewn cysylltiad ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru yn cael ei ystyried gan y Comisiynydd yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg. |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ymysg staff Comisiwn y Cynulliad,** | Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn y Cynulliad yn archwilio dulliau o weithio ar y cyd er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ymysg staff y |

| | |
|---|---|
| **aelodau etholedig a staff cefnogi** | Comisiwn, ac Aelodau Etholedig a'u staff cefnogi. Fel rhan o hyn:<br>- bydd y Comisiynydd yn rhannu gwybodaeth a/neu arbenigedd â'r Comisiwn, gan gynnwys arferion da mewn sefydliadau eraill<br>- bydd y Comisiwn yn rhannu gwybodaeth â'r Comisiynydd ynghylch deilliannau unrhyw ymdrechion i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. |
| **Cymdeithas Ryngwladol Comisiynwyr Iaith** | Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhannu gwybodaeth amserol gyda'r Comisiynydd a chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn y Comisiwn a Llywydd y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau ieithyddol a chyfreithiol a ddigwydd mewn seneddau a all fod o ddiddordeb i Gymru.<br><br>Bydd y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn y Comisiwn a/neu Llywydd y Cynulliad yn derbyn gwahoddiad i fod yn rhan o gynadleddau pan yn gymwys. |
| **Cyswllt cyson** | Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cwrdd yn ôl yr angen â Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, er mwyn trafod materion a grybwyllir yn y memorandwm hwn.<br><br>Yn ogystal â hynny, bydd swyddogion y Comisiynydd a'r Comisiwn yn cyfarfod i drafod materion gweithredol perthnasol. Gall swyddogion y ddau sefydliad gysylltu â'i gilydd fel y bo'r angen gydag ymholiadau ac i drafod materion perthnasol. Bydd y Comisiynydd yn dynodi swyddog cyswllt penodol ar gyfer y Comisiwn. |